CANLLAWIAU AR GYFER DERBYN YMWELWYR I ADEILADAU CYNNAL

CANLLAWIAU AR GYFER
DERBYN YMWELWYR I ADEILADAU CYNNAL

Canllawiau i sicrhau trefniadau addas ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau CYNNAL :

- dylai ymwelwyr adrodd yn y Dderbynfa eu bod wedi cyrraedd;
- dylai ymwelwyr gofnodi eu manylion yn y Llyfryn Ymwelwyr – gan gynnwys enw, rhif cofrestru eu cerbyd, pwy maent yn ei gyfarfod, a'r amser cyrraedd;
- dylai ymwelwyr aros yn y Dderbynfa nes y daw aelod o staff i'w cyfarch, a'u hebrwng i leoliad y cyfarfod;
- ni ddylid caniatáu i ymwelwyr gerdded o amgylch yr adeilad heb oruchwyliaeth;
- ni ddylid gadael ymwelwyr mewn ystafelloedd/swyddfeydd ...heb oruchwyliaeth, yn enwedig os cedwir eiddo personol (megis bagiau, arian...) sy'n eiddo staff CYNNAL;
- dylai ymwelwyr gwblhau'r Llyfryn Ymwelwyr wrth adael.

Trefniadau ychwanegol

Gosodir camerâu CCTV i fonitro mynedfeydd yr adeiladau, a bo rheiny yn cael eu monitro o'r Swyddfa Gyffredinol / Dderbynfa.

Gosodir allweddellau diogelwch ar bob prif fynedfa, gyda threfn o newid y côd bob ryw ddau fis.

Anogir staff i gau'r drysau allanol wrth adael yr adeilad, yn enwedig cyn ac ar ôl oriau gwaith arferol.